

Arolygiaeth  
Gofal Iechyd  
Cymru

Adroddiad Blynyddol



2013-  
2014

Mae croeso i chi wneud cais am gopi o'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) mewn ffurf neu iaith arall. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigolion. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)

Gwefan: [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

# Cynnwys

Rhagair

**1** Gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

**2** Ein Hegwyddorion Cyflawni

**3** Ein gwaith yn 2013-14

- Ein rhaglen arolygu graidd ar gyfer y GIG
- Rheoleiddio ac arolygu gofal iechyd annibynnol
- Cyflawni swyddogaethau penodol
- Ymateb i bryderon a phroblemau
- Adrodd yn glir, yn agored ac yn gyhoeddus

**4** Galluogi ein Sefydliad i Gyflawni

- Cadw cleifion a defnyddwyr yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Sicrhau dull proffesiynol
- Cynnal trosolwg o'r risgiau, y materion sy'n codi a'r materion cyfredol
- Seilio gweithgaredd ar safonau cydnabyddedig

**5** Gweithio gydag eraill

# Rhagair



**Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2013-14. Mae'r GIG yng Nghymru'n dal i wynebu hinsawdd ariannol anodd.**

**Mae'r galw am wasanaethau'n**

**dal yn uchel ac mae mwy o graffu'n digwydd heddiw ar lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig nag erioed o'r blaen.**

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14 fod 92% o'r bobl yn fodlon â'r gofal roeddent wedi'i gael yn ystod eu hymweliad diwethaf â'u meddyg teulu a bod 91% yn fodlon â'r gofal roeddent wedi'i gael yn ystod eu hapwyntiad diwethaf yn un o ysbytai'r GIG.

Ond mae'n bwysig nad ydym yn llaesu dwylo, oherwydd mae'n amlwg bod rhai cleifion wedi cael anhawster. Roedd canfyddiadau adroddiad yn dwyn y teitl 'Ymddiried mewn Gofal' a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos yn glir bod ansawdd gofal yn gallu amrywio o'r naill ward i'r llall mewn ysbytai, ac o'r naill ysbyty i'r llall mewn Byrddau Iechyd. Mae'n hanfodol bod cleifion a pherthnasau'n teimlo eu bod yn gallu mynegi pryder ac yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt. Mae'n hanfodol hefyd ein bod yn defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir gennym yn AGIC er mwyn canolbwyntio ar y meysydd lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Roedd eleni'n gyfnod o fyfyrto i AGIC. Cynhaliwyd ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol rhwng Awst a Thachwedd 2013 a chyflwynwyd adroddiad arno ym mis Mawrth 2014. Roedd yr ymchwiliad yn gyfle da i ystyried barn rhanddeiliaid, ac amlygodd rai o'r heriau roedd y sefydliad wedi bod yn eu hwynebu, o ran capasiti, gallu a chyflawni.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ers yr ymchwiliad: Rydym wedi gwneud llawer o waith recriwtio er mwyn cael staff parhaol a chryfhau ein paneli adolygwyr allanol; rydym wedi diweddarau a phrofi dulliau newydd o adolygu urddas a gofal hanfodol; rydym wedi cyflwyno swydd newydd Cyfarwyddwr Clinigol er mwyn cael sylfaen broffesiynol gadarn i bopeth rydym yn ei wneud; rydym wedi cyflwyno gwelliannau sylweddol i'r broses o ddadansoddi gwybodaeth ac i lif gwybodaeth a ddefnyddir gennym fel sail i'n gwaith; ac rydym wedi adolygu'n prosesau er mwyn sicrhau bod ein hadroddiadau'n cael eu cyhoeddi'n llawer cyflymach.

Mae'r newidiadau hyn eisoes yn cael effaith sylweddol ac maent yn darparu llwyfan sefydlog y gallwn adeiladu arno yn y dyfodol.

Gan edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, rwy'n falch o ddweud ein bod wedi cyhoeddi cynllun gweithredol 2014-15 cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r cynllun hwn yn dangos y byddwn y flwyddyn nesaf yn:

- **Cynyddu nifer ein gweithgareddau arolygu'n sylweddol.**
- **Gosod safonau pendant er mwyn cyflwyno adroddiadau'n gyflymach.**
- **Lansio ein gwefan newydd yn gynnar yn y flwyddyn newydd.**
- **Cyflwyno adroddiadau blynyddol ar gyfer holl gyrff y GIG.**
- **Sicrhau mwy o gysondeb a manylrwydd o ran y ffordd rydym yn ymateb i broblemau a phryderon ac yn eu trosglwyddo i lefel uwch.**
- **Sefydlu Bwrdd Cyngori newydd a chryfach.**

**Dr Kate Chamberlain**  
**Prif Weithredwr**

# 1 Gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Pwy ydym ni:

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r brif arolygiaeth ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Ein diben yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hybu gwelliannau.

## Pwy ydym ni:

- Rydym yn arolygu ac yn adrodd am ansawdd a diogelwch y gofal iechyd a ddarperir gan sefydliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru.
- Rydym yn arolygu ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru.
- Rydym yn canolbwyntio ar ba mor dda y diogelir y rhai hynny a allai fod mewn sefyllfaoedd sy'n golygu eu bod yn agored i niwed.
- Rydym yn nodi pa wasanaethau sy'n gwneud yn dda ac yn amlygu meysydd lle mae angen gwella gwasanaethau.
- Rydym yn ymchwilio pan fo posibilrwydd o fethiannau systemig wrth ddarparu gofal iechyd.
- Rydym yn cymryd camau ar unwaith os ydym yn penderfynu nad yw diogelwch ac ansawdd gofal iechyd yn bodloni'r safonau gofynnol.
- Rydym yn hysbysu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd am safonau gofal iechyd yng Nghymru.

## Sut Rydym yn Gwneud Hyn

Mae ein cyfrifoldebau'n eang:




## Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt

- Gwell profiad o ofal iechyd i ddinasyddion
- Bod gwybodaeth eglur, amserol a didwyll am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ar gael i ddinasyddion.
- Bod dinasyddion yn ffyddiog bod y gwaith o arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, wedi ei gydgyssylltu a'i fod yn ychwanegu gwerth.

### Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn sefydlu'r egwyddorion sylfaenol sy'n rheoli'r ffordd rydym yn gwneud ein gwaith.



## Ein Pobl

Mae gennym tua 60 o staff, wedi'u lleoli yn ein Timau Arolygu, Ymchwilio, Rheoleiddio, Awdurdod Goruchwyllo Lleol a Chorfforaethol.

Er mwyn cefnogi'n gweithlu craidd, buom yn gweithio gyda phanel o adolygwyr allanol, gweithwyr ieched a gofal cymdeithasol proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd.

Yn ystod y flwyddyn buom yn gweithio er mwyn datblygu capasiti a gallu ein gweithlu drwy raglen recriwtio gynhwysfawr er mwyn i ni allu dal i gyflawni a datblygu ein sefydliad i fodloni disgwyliadau uwch yn yr hirdymor yn unol â'n nodau, gwerthoedd ac egwyddorion cyflawni cyffredinol.

## Ein Bwrdd Cyngori

Yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Ymchwiliad Canol Swydd Stafford penderfynasom fod angen cynnal adolygiad sylfaenol o'n trefniadau llywodraethu, gan gynnwys gweithrediad ein Bwrdd Cyngori. Datblygwyd trefniadau newydd ar gyfer goruchwyllo a chraffu'n annibynnol ar waith AGIC yn ystod y flwyddyn gan gydnabod yr angen i ystyried adroddiad yr ymchwiliad byr i waith AGIC<sup>1</sup> a gynhaliwyd gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru<sup>2</sup>.

Yn ystod 2014-15 byddwn yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer aelodaeth o Fwrdd Cyngori cryfach. Bydd gan y bwrdd hwn rhwng 15 ac 20 o aelodau a bydd tua 50% o'r aelodau'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, perthnasau a gwirfoddolwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal ieched, neu'n fudiadau gwirfoddol sy'n cynrychioli pobl, teuluoedd a gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau gofal ieched a phobl sydd wedi cael profiad o weithio mewn gwasanaethau gofal ieched yn ddiweddar.

<sup>1</sup> Ym mis Gorffennaf 2013 dechreuodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad byr i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae manylion yr ymchwiliad hwn ar gael yn [www.senedd.cynulliadcymru.org/mglssueHistoryHome.aspx?lId=7373](http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglssueHistoryHome.aspx?lId=7373)

<sup>2</sup> Sefydlwyd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 22 Mehefin 2011 a'i gylch gorchwyl oedd archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar wariant, gweinyddiaeth a materion polisi sy'n cwmpasu ieched corfforol, meddyliol a chyhoeddus pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.



## 2 Ein hegwyddorion cyflawni

Yn ystod 2013-14 rydym wedi datblygu cyfres o egwyddorion cyflawni sydd wedi darparu fframwaith gweithredu i ni. Mae'r rhain wedi codi o drafodaethau gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ac maent hefyd yn ystyried y gofynion er mwyn bod yn arolygiaeth gadarn, gymesur, effeithlon ac effeithiol fel y nodir yn Adroddiad Ymchwiliad Canol Swydd Stafford<sup>3</sup>. Maent wedi dal i esblygu yn ystod y flwyddyn, ond roeddent yn sail i gynllun gweithredol 2013-14<sup>4</sup>.

### Egwyddor 1

Bydd AGIC yn cynnal rhaglen flynyddol o *arolygiadau'r GIG* ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth a fydd yn cynnwys elfennau o:

- arolygiadau (gyda rhybudd a dirybudd) wedi'u cynllunio, a gynhelir mewn lleoliadau penodol yn ôl amserlen sylfaenol a ddiffiniwyd, gydag arolygiadau ychwanegol mewn ymateb i broblemau a phryderon
- profi trefniadau cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch
- profi ymateb sefydliadau i argymhellion.

### Egwyddor 2

Bydd AGIC yn cynnal rhaglen o weithgaredd rheoleiddio ar gyfer pob lleoliad gofal iechyd *annibynnol* sy'n sicrhau bod:

- Pob sefydliad y mae'n ofynnol iddo gofrestru gydag AGIC **yn gwneud hynny**
- Y broses gofrestru yn sicrhau bod darparwyr gofal iechyd annibynnol yn bodloni'r rheoliadau a'r safonau gofynnol perthnasol

Yr holl lleoliadau yn derbyn ymweliadau ar hap yn ôl amserlen sylfaenol ofynnol, gydag arolygiadau ychwanegol yn cael eu cynnal mewn ymateb i broblemau a phryderon.

<sup>3</sup> Robert Francis CF – Adroddiad Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford a gyhoeddwyd ar 6 Chwefror 2013.

<sup>4</sup> [www.hiw.org.uk/opendoc/238436](http://www.hiw.org.uk/opendoc/238436)

### **Egwyddor 3**

Bydd AGIC yn defnyddio dull proffesiynol a phwyllog o gyflawni ei swyddogaethau penodol a bydd yn ceisio defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn i'r graddau y mae hynny'n bosibl er mwyn helpu i gyflawni ei chyfrifoldebau dan Egwyddorion 2 a 3. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys:

- Awdurdod Goruchwyllo Lleol ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwragedd
- Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Deintyddol
- Cyfrifoldebau dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn
- Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cyfrannu tuag at y Mekanwaith Ataliol Cenedlaethol
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)
- Cyffuriau a Reolir
- Ymchwiliadau i Laddiadau
- Digwyddiadau Rheoliad 30/31 (Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011)
- Adolygiadau ar y Cyd ag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
- Adolygiad gan Gymheiriaid +

### **Egwyddor 4**

Bydd AGIC yn ymateb mewn modd priodol a phrydlon i bryderon a phroblemau drwy:

- Drosaglwyddo pryderon a phroblemau yng nghyd-destun y GIG i lefel uwch
- Camau gorfodi priodol lle nad yw darparwyr gofal iechyd annibynnol yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

### **Egwyddor 5**

Bydd AGIC yn cyflwyno adroddiadau mewn modd eglur, agored a chyhoeddus ynglŷn â'r gwaith yr ydym yn ei wneud er mwyn i ddinasyddion allu cael gwybodaeth annibynnol a gwrthrychol ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gofal iechyd yng Nghymru.

**Egwyddor 6**

Bydd AGIC yn rhoi lle canolog yn ein gwaith i gleifion a defnyddwyr drwy:

- gynnal panel o adolygwyr lleyg i gymryd rhan weithredol yn y broses arolygu
- parhau i arsylwi'n uniongyrchol a chael trafodaethau gyda chleifion, perthnasau a staff fel rhan o'n harolygiadau
- ymestyn ein defnydd o arolygiadau dirybudd, y tu allan i oriau swyddfa arferol ac ar benwythnosau
- datblygu ein fframwaith cyffredinol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a'r cleifion.

**Egwyddor 7**

Bydd AGIC yn sicrhau dull proffesiynol o reoleiddio ac arolygu drwy:

- gynnal panel o adolygwyr cymheiriaid arbenigol y gellir galw arnynt i roi cyfraniad proffesiynol i weithgarwch arolygu
- cefnogi ein staff ein hunain â'u datblygiad proffesiynol a phersonol
- defnyddio grwpiau llywio arbenigol i gynghori ar effeithiolrwydd y methodolegau arolygu ac ar ddatblygiadau iddynt
- sefydlu Bwrdd Cynghori cryf i herio a chraffu ar waith cyffredinol y sefydliad.

**Egwyddor 8**

Bydd AGIC yn cadw golwg gyffredinol ar y risgiau, y materion sy'n codi a'r materion cyfredol ym mhob corff a arolygir er mwyn:

- gallu siarad yn awdurdodol yn gyhoeddus ynglŷn â phryderon a materion sy'n codi, a
- defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i'n rhaglen waith.

**Egwyddor 9**

Bydd AGIC – i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ac yn briodol – yn defnyddio dull cydweithredol o wneud ei gwaith a bydd yn ceisio:

- rhannu gwybodaeth ynglŷn â phryderon a materion o bwys
- gweithio mewn partneriaeth â chyrrff adolygu allanol eraill; a
- dibynnu ar waith pobl eraill i roi sicrwydd.

**Egwyddor 10**

Bydd AGIC yn seilio ei gweithgaredd adolygu ar safonau cydnabyddedig fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru ac mewn canllawiau cysylltiedig, arfer gorau cydnabyddedig, a gofynion a ddiffinnir mewn deddfwriaeth a rheoliadau. Byddwn yn defnyddio ein profiad o gyflawni'r safonau hyn er mwyn eu datblygu ymhellach.

# 3 Ein gwaith yn 2013-14

## 3.1. Ein rhaglen arolygu graidd ar gyfer y GIG

### Urddas a Gofal Hanfodol

Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol yw craidd dull arolygu AGIC yn sefydliadau'r GIG yng Nghymru o hyd. Yn 2013–14 parhaodd yr ymweliadau hyn i ganolbwyntio ar ddiogelwch cleifion mewn ysbytai, y gofal hanfodol a gawsant, eu hurddas a'r parch a ddangoswyd tuag atynt.

### Methodoleg a datblygu ein dull arolygu

Mae 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' AGIC yn adolygu'r ffordd y cedwir urddas cleifion mewn ward / uned / Adran mewn ysbyty a'r gofal nyrsio sylfaenol y mae cleifion yn ei gael. Rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys, er enghraifft:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau a chyfweliadau gyda staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr yn y Bwrdd Iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwi cyffredinol ar amgylchedd gofal ac arferion gofal.

Mae'r arolygiadau hyn gan AGIC yn rhoi ciplun o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn ac yn ystyried a allai'r rhain ddangos problemau ehangach yn ymwneud â diogelwch ac ansawdd gofal hanfodol ac urddas yn yr ysbyty neu'r Bwrdd Iechyd.

Yn rhan gyntaf 2013–14 cynaliasom dri arolygiad gan ddefnyddio'r dull rydym wedi'i sefydlu. Defnyddiwyd yr wybodaeth a gafwyd o'r arolygiadau hyn fel sail i ddatblygu. Cynhaliwyd pum arolygiad arall ar ddechrau 2014 i brofi'r offer newydd. O ganlyniad i hyn rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar reolaeth ac arweinyddiaeth ac ar y systemau sy'n bodoli er mwyn rheoli ansawdd a diogelwch.

Un datblygiad allweddol yng nghyswllt cynnwys ein harolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol yn 2013–14 a'u hadroddiadau yw'r newid i arolygu ac adrodd ar sail pedwar maes:

#### • Ansawdd Profiad Cleifion

Daliasom i wrando ar lais y claf (oedolion a phlant) er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn cael ei adlewyrchu yn ein gwaith.

#### • Darparu Hanfodion Gofal

Daliodd ein harolygiadau i ganolbwyntio ar ddarparu agweddau sylfaenol ar ofal a chanlyniadau cleifion ym mhob lleoliad gofal iechyd. Byddwn yn dal i adolygu hyn ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn ystod ei hadolygiad o'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – sy'n cynnwys agweddau sylfaenol ar ofal, er mwyn sicrhau bod ein dull o weithio'n dal yn gyson â disgwyliadau ar gyfer y GIG yng Nghymru.

#### • Ansawdd Staffio Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Yn ystod ein harolygiadau gwnaethom wella ein hadolygiad o reolaeth ac arweinyddiaeth er mwyn profi diwyllianau mewn gwasanaethau a sefydliadau ac adolygu sut y mae sefydliadau'r GIG yn monitro eu perfformiad mewnol ar sail safonau sylfaenol urddas a gofal hanfodol.

- **Darparu gwasanaeth diogel ac effeithiol**

Rydym yn cydnabod y gallai unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd fod yn agored i niwed a gwnaethom sicrhau bod ein rhaglenni gwaith rheolaidd, offer arolygu ac arferion gwaith yn canolbwyntio ar y graddau y mae sefydliadau gwasanaethau gofal iechyd yn darparu cefnogaeth briodol i sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau sydd mewn sefyllfaoedd lle gallent fod yn agored i niwed yn cael eu diogelu.

## Beth wnaethom ni ei ddarganfod:

Yn ystod y flwyddyn cynaliasom wyth arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol. Nodwyd rhai meysydd sydd ag arferion da a rhai meysydd y mae angen eu gwella ym mhob arolygiad. Nodir enghreifftiau o rai o'n prif ganfyddiadau yn y cyswllt hwn isod yn eu meysydd perthynol:

	Ymarfer Da	Meysydd y mae angen eu gwella
<b>Ansawdd Profiad Cleifion</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael gofal.</li> <li>• Siaradodd y cleifion yn gadarnhaol am agwedd ac ymddygiad staff.</li> <li>• Dywedodd cleifion wrthym fod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael ei gadw.</li> <li>• Gwelsom lawer o enghreifftiau o ryngweithio cyfeillgar a pharchus rhwng staff a chleifion.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim llawer o weithgareddau i gleifion</li> <li>• Problemau amgylcheddol amrywiol a phosiblwydd y gallent effeithio ar ansawdd profiad y claf, megis safon yr arwyddion a ddylai helpu i cleifion i ganfod eu ffordd.</li> </ul>
<b>Darparu Hanfodion Gofal</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gyffredinol, roedd sylw priodol yn cael ei roi i ofal o safon broffesiynol ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy.</li> <li>• Gwelwyd rhai enghreifftiau o gleifion yn cael therapiau, er enghraifft therapi galwedigaethol neu ffisiotherapi mewn da bryd i'w helpu i wella.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Problemau amrywiol yn ymwneud â pha mor drylwyr oedd y dogfennau a oedd yn ymwneud â darparu gofal i gleifion.</li> </ul>
<b>Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwelsom rai enghreifftiau o waith tîm ac arweinyddiaeth ar wardiau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyfforddiant staff mewn meysydd fel gofalu am gleifion sydd â dementia; anabledau dysgu ac amddiffyn oedolion.</li> </ul>
<b>Darparu gwasanaeth diogel ac effeithiol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gyffredinol, roedd gan y wardiau a'r adrannau yr ymwelwyd â hwy strwythurau atebolrwydd proffesiynol sefydledig.</li> <li>• Darperid gofal drwy systemau diogel yn seiliedig ar bolisiau effeithiol o safbwynt clinigol a gweithdrefnau yn seiliedig ar Ganllawiau Cenedlaethol.</li> <li>• Roedd trefniadau crynhoi bwriadol (intentional rounding) wedi cael eu cyflwyno mewn llawer o feysydd er mwyn sicrhau bod cleifion, yn enwedig yr henoed, yn cael eu harsylwi'n rheolaidd a bod gofal yn cael ei ddarparu iddynt.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodwyd rhai problemau â chywirdeb dogfennau yn ymwneud â meddyginiaeth.</li> <li>• Nodwyd problemau amrywiol yn ymwneud â glendid wardiau ac effeithiolrwydd gweithdrefnau atal a rheoli heintiau.</li> </ul>

Mae pob Bwrdd lechyd wedi cyflwyno Cynllun Gwella mewn ymateb i'r canfyddiadau sy'n galw am welliant ac mae'r rhain wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, ochr yn ochr ag adroddiad yr arolygiad perthynol.

Lle'r oedd ymweliadau dilynol wedi'u gwneud ar sail cynlluniau gweithredu yn deillio o'n harolygiadau cynharach gwelsom fod cynnydd wedi'i wneud gan y timau gwasanaeth a staff ar sail y canfyddiadau a'r argymhellion penodol a wnaethpwyd. Roedd yr ymweliadau dilynol yn ymweliadau lle rhoddwyd rhybudd ac rydym yn cydnabod bod ein canfyddiadau wedi'u gwneud ar adeg benodol. Mewn cysylltiad â hyn pwysleiswyd bod angen i'r meysydd gwasanaeth sicrhau bod safonau cenedlaethol yn cael eu cynnal wrth ddarparu gwasanaeth.

### Sicrhau ansawdd gofal mewn practisau meddygon teulu

Yn Hydref 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Dysgu at y dyfodol – Symud ymlaen ac adeiladu ar argymhellion ymchwiliad Robert Powell'. Un o'r camau gweithredu yn yr adroddiad hwn oedd bod yn rhaid i'r holl Fyrddau lechyd Lleol ymgymryd ag adolygiad o'u trefniadau llywodraethu ar gyfer sicrhau ansawdd gofal sylfaenol, a bod AGIC yn profi effeithiolrwydd y trefniadau hyn drwy raglen dreigl o adolygiadau. Rhannwyd gwybodaeth ynglŷn â'r adolygiadau hyn gydag AGIC.

Yn ystod 2013-14 gwnaethom asesu'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Byrddau lechyd Lleol, a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i ddatblygu rhaglen arolygiadau ar gyfer practisau cyffredinol. Mae ein gwaith datblygu wedi cynnwys:

- **Sefydlu grŵp cyfeirio i ganfod barn rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys Meddygon Teulu, Nyrsys, Rheolwyr Practisau a Byrddau lechyd, Llywodraeth Cymru, lechyd**

### Cyhoeddus Cymru a Chynghorau lechyd Cymuned.

- **Cynllunio dull o arolygu practisau meddygon teulu a fydd yn profi'r union wasanaeth a ddarperir i gleifion yn annibynnol.**
- **Datblygu rhaglen arolygu beilot a fydd yn dechrau ym mis Mehefin 2014**
- **Ymgysylltu â'r Cynghorau lechyd Cymuned i edrych sut y gellir rhoi'r rhaglen arolygu ar waith mewn ffordd gydweithredol a chyflenwol lle mae Cynghorau lechyd Cymuned eisoes yn ymweld â safleoedd practisau meddygon teulu.**

### Cyfrannu tuag at yr adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau comisiynu ar gyfer gofal cymdeithasol (gan gynnwys y meysydd hynny lle mae iechyd a gofal cymdeithasol yn gorgyffwrdd)

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) adolygiad cenedlaethol o gomisiynu ym maes gofal cymdeithasol oedolion rhwng Gorffennaf 2013 ac Ionawr 2014. Cynhaliwyd yr adolygiad mewn partneriaeth ag AGIC ac Archwilydd Cyffredinol Cymru a hynny mewn dwy ran. Yn y rhan gyntaf cwblhawyd hunanasesiad gan awdurdodau lleol, yn gwerthuso ansawdd eu comisiynu cyffredinol gyda'u partneriaid mewn cysylltiad â'u blaenoriaethau strategol. Dilynwyd hyn gan gyfarfodydd rhwng AGGCC ac awdurdodau lleol er mwyn gwirio'r dystiolaeth yn eu hunanasesiad. Roedd yr hunanasesiad yn canolbwyntio ar gomisiynu gofal cymdeithasol oedolion, ac i ba raddau roedd awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r safonau a'r arferion gorau yn y canllawiau statudol. Roedd yr ail ran yn cynnwys gwaith maes a oedd yn canolbwyntio ar gomisiynu gwasanaethau i bobl â dementia.

Cynhaliwyd y gwaith maes ym Mlaenau Gwent, Bro Morgannwg, Abertawe, Merthyr Tudful a Sir y Fflint. Craffodd y tîm adolygu ar ffeiliau achos, dogfennau'r awdurdodau lleol a gwybodaeth ariannol. Siaradodd yr arolygwyr â defnyddwyr gwasanaethau, gofawyr a'u cynrychiolwyr, staff awdurdodau lleol, rheolwyr, timau comisiynu, cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, prif weithredwyr ac aelodau o gynghorau.

Cyhoeddwyd adroddiad ar yr adolygiad ym mis Ebrill 2014. Canfu fod angen i awdurdodau lleol a byrddau iechyd wneud newidiadau sylweddol i'r modd y maent yn cynllunio ac yn comisiynu gwasanaethau i bobl â dementia.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld yn: <http://cssiw.org.uk/our-reports/national-thematic-report/2014/review-of-commissioning-for-social-care-13-14/?skip=1&lang=cy>

### Adolygiad dilynol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Ym mis Rhagfyr 2013 cynaliasom adolygiad dilynol ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn canfod a yw Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd wedi rhoi sylw llawn i'r materion a gyhoeddwyd mewn adroddiad ar y cyd ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)<sup>5</sup> ym mis Tachwedd 2009.

Roedd yr adolygiad ar y cyd yn edrych ar wasanaethau amrywiol i blant a phobl ifanc â phroblemau emosiynol a phroblemau iechyd meddwl, ac yn ymdrin ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Nod yr adolygiad ar y cyd oedd canfod a yw gwasanaethau'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru'n ddigonol. Yr hyn a welsom yn 2009 oedd bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud, ond bod gwasanaethau'n dal i wneud cam â llawer o blant

a phobl ifanc, a bod nifer o ffactorau allweddol yn atal gwelliant.

Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r materion diogelwch a amlygwyd yn adroddiad 2009, ein casgliad cyffredinol yn 2013 oedd bod plant a phobl ifanc yn dal i wynebu risg oherwydd eu bod yn cael eu derbyn yn amhriodol i wardiau iechyd meddwl oedolion. Roedd problemau hefyd yn ymwneud â rhannu gwybodaeth a gweithredu ar ddyletswyddau diogelu, ynghyd ag arferion annïogel wrth ryddhau plant a phobl ifanc.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld yn: <http://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/gwasanaethau-iechyd-meddwl-plant-ar-glasoed-adolygiad-dilynol-o-faterion-diogelwch>

Byddwn yn dal i fonitro'r materion hyn yn ystod ymweliadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

### Adolygiadau Arbennig

Rydym yn cynnal adolygiadau arbennig o sefydliadau neu wasanaethau gofal iechyd mewn ymateb i bryderon a allai godi o bosibl o ddigwyddiad penodol neu gyfres o ddigwyddiadau. Mae maint a natur unrhyw waith adolygu arbennig yn dibynnu ar ddifrifoldeb neu amllder y rhain.

Y llynedd cyhoeddodd AGIC yr adolygiadau a ganlyn:

#### 27 Mehefin 2013

Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Adolygiad ar y Cyd a wnaethpwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru [http://www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/364A2013%20HiW%20joint%20report%20Final\\_welsh.pdf](http://www.hiw.org.uk/sitesplus/documents/1047/364A2013%20HiW%20joint%20report%20Final_welsh.pdf)

<sup>5</sup> Gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl, Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Tachwedd 2009

### 31 Mawrth 2014

Adroddiad adolygiad o'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan (BIAB) yn dilyn marwolaeth Miss A yn 2010

<http://www.hiw.org.uk/opendoc/239453>

### 2 Ebrill 2014

Adolygiad o Ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i'r Traws-heintiad ESBL E.coli yn yr Uned Famolaeth/Babanod Newydd-anedig yn Ysbyty Singleton yn Nhachwedd 2011

<http://www.hiw.org.uk/opendoc/238441>

## Asesiad ar sail Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru a Safonau Gofal Iechyd i Gymru cyn hynny

Mae'r dull o asesu'r safonau'n nodi mai Byrddau sefydliadau'r GIG sy'n gyfrifol am sicrhau gwelliant. Ar lefel gorfforaethol, mae'r hunanasesiad yn nodi ei bod yn ofynnol i Fyrddau, gyda'i gilydd, ystyried ac asesu addasrwydd eu sefydliad i'r diben ac adrodd ar ganlyniad eu hasesiad fel rhan o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y sefydliad.

Defnyddir ein rhaglen arolygiadau flynyddol, adolygiadau arbennig a gwaith ymchwiliol fel sail i'n hasesiad o ba mor dda mae sefydliadau'n gwneud eu gwaith o gymharu â'r safonau. Mae trafodaethau mewn Uwchgynadleddau Gofal Iechyd yn profi ac yn ymchwilio i hunanasesiad pob un o sefydliadau'r GIG gan nodi meysydd lle mae barn y Bwrdd am aeddfedrwydd ei sefydliad yn wahanol i farn y cyrff archwilio, adolygu a rheoleiddio sy'n bresennol.

Mae aelodau AGIC yn chwarae rhan weithredol ar fwrdd y prosiect a'r timau prosiect sy'n adolygu'r safonau fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i ymchwiliad Francis.

## 3.2 Rheoleiddio ac arolygu gofal iechyd annibynnol

### Gweithgareddau cofrestru

Drwy gofrestru ac arolygu rydym yn rheoleiddio'r sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau cysylltiedig a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru<sup>6</sup>.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymweliadau cofrestru a wnaethpwyd ac yn cynnwys ymweliadau dilynol lle na allai'r darparwr cofrestredig fodloni'r meini prawf cofrestru yn ystod yr ymweliad cychwynnol. Yn ychwanegol at hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd gyda darparwyr a chomisiynwyr gofal. Cynhaliwyd dau weithdy darparwyr cenedlaethol â chynrychiolwyr o'r ysbytai iechyd meddwl ac anabledl dysgu.

<sup>6</sup> Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru – Datganiad ynghylch safonau gofynnol cenedlaethol sy'n berthnasol i ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol ac asiantaethau meddygol annibynnol a wnaethpwyd gan Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru dan bwerau a roddwyd drwy adran 23(1) Deddf Safonau Gofal 2000. Diwygiwyd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn Ebrill 2011. Mae'r Safonau presennol i'w gweld yn <http://www.hiw.org.uk>



Math o weithgaredd	2013-2014
Cofrestriadau newydd	136
Newidiadau i gofrestriadau	123
Dadgofrestriadau	122
Nifer yr ymweliadau cofrestru	36

### Arolygu lleoliadau gofal iechyd annibynnol

Yn ystod 2013-14 gwnaethom arolygu lleoliadau gofal iechyd annibynnol gan ddefnyddio rhai o'n rhaglenni arolygu arferol. Roedd y rhain yn cynnwys arolygiadau urddas a gofal hanfodol a hapwiriadau glanweithdra, yn ogystal â rhaglen benodol wedi'i thargeddu tuag at leoliadau annibynnol sy'n darparu gwasanaethau i bobl ag anawsterau dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl.

Buom yn monitro darparwyr gofal iechyd annibynnol, gan ystyried gwybodaeth a gawsom o ffynonellau amrywiol. Cynaliasom ymweliadau dilynol lle'r oedd pryderon yn galw am gamau o'r fath. Yn ychwanegol at hyn, fel rhan o'r gwaith dilynol, cynhaliwyd cyfarfodydd gweithredu gyda darparwyr a chomisiynwyr hefyd lle'r oedd hynny'n briodol.

### Tabl Arolygiadau Gofal Iechyd Annibynnol a gynhaliwyd yn ystod 2013-2014

Math o leoliad	Nifer y lleoliadau	Nifer yr Arolygiadau
Ysbytai Deintyddol	2	2
Hosbisau (Oedolion)	6	2
Hosbisau (Plant)	2	1
Acíwt	11	8
Clinig Annibynnol	8	4
Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu	20	24
Laser/Golau Pwls Dwys	66	7
IVF	3	0
Terfynu Beichiogrwydd	2	0
Asiantaeth Feddygol	1	0
<b>CYFANSWM</b>	<b>121</b>	<b>48</b>

Mae adroddiadau manwl am y canfyddiadau unigol ar gyfer pob un o'r arolygiadau hyn i'w gweld ar ein gwefan.

## Ein canfyddiadau

Canfuom fod materion amgylcheddol wedi'u hamlygu mewn mwy na hanner y lleoliadau a arolygwyd. Roedd y materion hyn yn amrywio o safon gwaith addurno i'r angen am ddodrefn newydd. Roedd materion amgylcheddol hefyd yn cynnwys safonau glanweithdra.

Roedd mwy na hanner yr arolygiadau'n cyfeirio at brinder gweithgareddau ar gyfer cleifion. Os nad oedd gan glaf ganiatâd adran 17<sup>7</sup> yna ychydig iawn o weithgareddau oedd ar gael iddo. Roedd ar rai lleoliadau angen adolygu'r gweithgareddau a gynigid ac roedd cleifion yn aml yn cwyno nad oedd ganddynt ddim i'w wneud.

Roedd bron bob un o'n hymweliadau'n amlygu materion yn ymwneud â chynlluniau/cofnodion gofal. Roedd y materion yn cynnwys diffyg asesiadau risg a gwybodaeth ar goll neu ddiffyg manylion o gynlluniau gofal e.e. mesuriadau anafiadau, disgrifiadau.

Roedd mwy na hanner ein hymweliadau yn nodi bod angen rhoi sylw i briodoldeb derbyn cleifion. Gofynnwyd i ysbytai adolygu derbyniadau yn unol â'r gofal a'r driniaeth y gall yr ysbyty eu darparu.

Amlygwyd nifer o faterion hefyd yn ymwneud â staffio yn y lleoliadau a arolygwyd:

- **Lle'r oedd ysbyty'n defnyddio staff asiantaeth i wneud shiffitiau, ychydig iawn ohonynt oedd â rhestr wirio ysgrifenedig i'w helpu i gynefino.**
- **Nid oedd gan fwy na hanner yr ysbytai a arolygwyd drefniadau goruchwyllo staff rheolaidd.**
- **Roedd hyfforddiant gorfodol i staff yn wael mewn llawer o ysbytai. Roedd hyfforddiant gorfodol wedi dyddio mewn nifer o achosion.**

<sup>7</sup> Caniatâd ffurfiol i glaf sy'n cael ei gadw mewn ysbyty dan y Ddeddf Lechyd Meddwl fod yn absennol o'r ysbyty am gyfnod; mae cleifion yn dal yn ddarostyngedig i bwerau'r Ddeddf pan nad ydynt yn yr ysbyty a gellir eu galw'n ôl i'r ysbyty os bydd angen am resymau'n ymwneud â'u hiechyd a'u diogelwch hwy neu er mwyn diogelu pobl eraill.

## 3.3 Cyflawni swyddogaethau penodol

### Goruchwylloeth Statudol Bydwagedd yng Nghymru

Ar ran Gweinidogion Cymru a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, mae AGIC yn gyfrifol, fel yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol ar gyfer Cymru, am ymarfer goruchwylloeth gyffredinol dros bob bydwaig sy'n ymarfer yng Nghymru. Mae'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn cefnogi bydwagedd drwy fodel goruchwyllo sy'n ceisio diogelu'r cyhoedd drwy gefnogi bydwagedd yn rhagweithiol i ddarparu safon uchel o ofal bydwreigiaeth â dewis deallus i ferched.

Mae'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol yn goruchwyllo bydwagedd yn y saith Bwrdd Lechyd sy'n darparu gwasanaethau mamolaeth y GIG, yn ogystal â nifer fach o fydwragedd hunangyflogedig sy'n darparu gwasanaethau bydwreigiaeth annibynnol yng Nghymru. Mae'r math o wasanaethau y mae Byrddau Lechyd yn eu cynnig yn amrywio o unedau obstetreg aciwt i ganolfannau geni, ond mae gofal sy'n cael ei arwain gan fydwragedd a chynlluniau i geisio sicrhau bod genedigaeth yn ddigwyddiad mor naturiol ag sy'n bosibl, â chyn lleied ag sy'n bosibl o ymyriadau meddygol, yn dal i gael lle amlwg ym mhob un.

Ar 31 Mawrth 2014, roedd 101 o oruchwylwyr bydwagedd mewn swyddi, ac roedd 1,742 o fydwragedd wedi hysbysu'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol eu bod yn bwriadu ymarfer bydwreigiaeth yng Nghymru yn ystod 2013-14. Roedd nifer o oruchwylwyr bydwagedd mewn Byrddau Lechyd â chymarebau uwch nag 1:15 yn cael eu cefnogi â rhagor o oriau goruchwylwyr ac roedd cymhareb addasedig yn cael ei chyfrifo. Gan ystyried yr oriau ychwanegol, roedd cymhareb gyfartalog goruchwylwyr i fydwragedd Cymru gyfan ar 31 Mawrth 2014 yn 1:12, sy'n unol â'r canllawiau a roddwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, sy'n argymhell cymhareb o 1:15.

## Tabl Cymhareb goruchwylwyr i fydwragedd ym mhob darparwr gwasanaethau mamolaeth ar 31 Mawrth 2014

Bwrdd Iechyd	Nifer y bydwragedd	Nifer y goruchwylwyr	Cymhareb goruchwylwyr i fydwragedd	Cymhareb addasedig ag oriau ychwanegol
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	311	21	1:15	
Aneurin Bevan	293	14	1:21	1:13
Prifysgol Betsi Cadwaladr	400	13	1:31	1:15
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	287	16	1:18	1:15
Cwm Taf	209	16	1:13	
Hywel dda	197	16	1:12	
Powys	45	4	1:11	
Annibynnol	0			
<b>Cyfanswm (Cymru gyfan)</b>	<b>1742</b>	<b>100</b>	<b>1:17</b>	<b>1:14</b>

Cadarnhaodd y gwaith adolygu a wnaethpwyd gan ein tîm Awdurdod Goruchwylwyr Lleol yn 2013–2014 fod y safonau ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwragedd, a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, wedi cael eu bodloni. Bydd manylion llawn am waith yr Awdurdod Goruchwylwyr Lleol yn ystod 2013-2014 i'w gweld yn ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<sup>8</sup>.

Mae'r Awdurdod Goruchwylwyr Lleol yn cael ei hysbysu'n rheolaidd ynglŷn â digwyddiadau clinigol anffodus o bwys er mwyn ystyried a gyfrannodd ymarfer bydwreigiaeth is-safonol tuag at y digwyddiad. Lle gallai ymarfer bydwreigiaeth is-safonol fod wedi bod yn ffactor, bydd ymchwiliad goruchwylwyr yn cael ei wneud. Yn ystod 2013-14 derbyniodd tîm yr Awdurdod Goruchwylwyr Lleol 48 hysbysiad ynglŷn â digwyddiadau clinigol,

sy'n llai'r na'r 56 a dderbyniwyd yn y flwyddyn flaenorol. Cynhaliwyd ymchwiliad goruchwylwyr i bump ar hugain o'r 48 digwyddiad y tynnwyd sylw'r Awdurdod Goruchwylwyr Lleol atynt, yn unol â Chanllaw L<sup>9</sup> fforwm Awdurdodau Goruchwylwyr Lleol y Deyrnas Unedig ar gyfer prosesau ymchwilio.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Awdurdod Goruchwylwyr Lleol ar gyfer Cymru wedi dal i weithio gyda Nyrsys Gweithredol a Phenaeithiaid Bydwreigiaeth o bob cwr o Gymru er mwyn cytuno ar fodel goruchwylwyr newydd a fydd yn addas i'r diben ac a fydd yn dygymod â'r newid o ran galw a phwysau. Ar gyfer 2014 -15, rydym wedi ymrwymo i weithredu model sy'n gwneud rolau ac atebolrwydd yn gliriach ac yn sicrhau bod modd neilltuo amser wedi'i ddiogelu ar gyfer rôl y Goruchwylwyr Bydwragedd.

<sup>8</sup> Y corff rheoleiddio a sefydlwyd er mwyn sicrhau bod nyrsys a bydwragedd wedi cymhwyso'n briodol ac yn gymwys i weithio yn y Deyrnas Unedig

<sup>9</sup> LSA Midwifery Officers Forum UK (2009) Guideline and process for investigation into a midwife's fitness to practise by a Supervisor of Midwives on behalf of the Local Supervising Authority.

## Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Deintyddol

Mae'n ofynnol i Ymarferwyr Deintyddol sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat gofrestru gydag AGIC dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Diwygio 2011. Dan y rheoliadau hyn mae AGIC yn gyfrifol am asesu diogelwch ac ansawdd gofal a thriniaeth ddeintyddol breifat.

Yn ystod 2013-14 ysgrifennodd AGIC at bob ymarferwr deintyddol sy'n darparu deintyddiaeth breifat yn unig yng Nghymru i ofyn iddynt gwblhau holiadur Hunanasesu Sicrwydd Ansawdd ar-lein.

Lansiwyd yr holiaduron sicrwydd ansawdd â dwy brif nod:

- **ymgysylltu â deintyddion preifat er mwyn eu cael i weithio'n adeiladol gyda ni wrth i ni ddatblygu gweithdrefnau rheoleiddio ac arolygu mwy trylwyr**
- **cael gwell amgyffred o ansawdd gofal a thriniaeth ddeintyddol breifat sy'n cael ei darparu yng Nghymru ar hyn o bryd.**

Roedd yr holiadur yn gyfle i ymarferwyr deintyddol fyfyrion ac asesu eu trefniadau sicrwydd ansawdd, eu prosesau asesu a rheoli risg a sut y maent yn hwyluso ymarfer clinigol diogel ac effeithiol er mwyn sicrhau iechyd a lles cleifion.

Er mwyn sicrhau bod yr hyn y gofynnir i ymarferwyr deintyddol sy'n darparu deintyddiaeth breifat yn unig ei wneud yn gymesur ac yn rhesymol, defnyddiasom yr un holiadur y mae'n ofynnol i ymarferwyr deintyddol sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG ei lenwi. Cafwyd cyfradd ymateb o 100% gan y 101 o ymarferwyr deintyddol preifat yng Nghymru.

Aseswyd yr ymatebion i'r holiaduron gan ddeintyddion yn Nhîm Deintyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran AGIC er mwyn nodi

unrhyw faterion yn ymwneud â deintyddion unigol a nodi themâu cyffredin. Gan ddefnyddio'r dadansoddiad hwn, ysgrifennodd AGIC at bob deintyddol i dynnu eu sylw at bryderon yn deillio o'u hymateb i'r holiadur ac yn gofyn iddynt nodi sut y byddent yn rhoi sylw i'r pryderon hyn ac erbyn pryd. Yna gwnaethom ddadansoddi ymatebion y deintyddion â chymorth dau weithiwr deintyddol proffesiynol.

Roeddem yn falch o weld bod y rhan fwyaf o'r deintyddion wedi cael eu hysgogi drwy gwblhau'r holiadur sicrwydd ansawdd i gyflwyno gwelliannau i'r ffordd y maent yn gweithio, megis diweddarau eu hyfforddiant hwy a hyfforddiant staff y practis; profi a diweddarau cyfarpar; a diweddarau asesiadau risg iechyd a diogelwch y practis. Roeddem yn falch o nodi hefyd bod y pryder, yn y rhan fwyaf o'r achosion lle mynegwyd pryder, o ganlyniad i ansawdd yr wybodaeth a roddwyd yn yr holiadur sicrwydd ansawdd yn hytrach na phroblemau gwirioneddol yn y practis.

Arweiniodd yr ymarfer holiadur sicrwydd ansawdd at un arolygiad brys.

## Gwasanaeth adolygu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Er 2009, mae AGIC wedi bod yn gyfrifol am fonitro gweithrediad a chymhwysiad Deddf Iechyd Meddwl 1983 (y Ddeddf) ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r rôl yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed.

Prif ddiben Deddf Iechyd Meddwl 1983 (y Ddeddf) yw caniatáu gofal, triniaeth a gweithredu gorfodol, os oes angen, er mwyn sicrhau bod unigolyn sydd ag anhwylder meddyliol yn cael y gofal a'r driniaeth y mae arno ei hangen er mwyn sicrhau ei iechyd a'i ddiogelwch ef ei hun neu er mwyn diogelu pobl eraill.

O dan y Ddeddf gellir cadw unigolion mewn ysbyty neu fynnu eu bod yn byw yn y gymuned, gydag amodau penodol sy'n cael eu nodi mewn Gorchymyn Triniaeth Gymunedol neu dan Warcheidiaeth. Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosibl rhoi triniaeth iddynt nad ydynt wedi cydsynio i'w derbyn neu nad oes ganddynt y gallu i gydsynio i'w derbyn. Gall rhai pobl gael eu cadw dan y ddeddf am gyfnodau hir.

Mae'r Ddeddf yn cael effaith ddifrifol ar hawliau dynol unigolion sy'n ddarostyngedig i'w phwerau pan fo unigolyn yn gorfod cael ei gadw mewn ysbyty neu wynebu cyfyngiadau. Mae'r Ddeddf, a'r Cod Ymarfer sy'n gysylltiedig â hi, yn nodi mesurau diogelu a fwriadwyd er mwyn sicrhau nad yw unigolion yn cael eu cadw neu eu trin yn amhriodol heb eu cydsyniad.

Ein prif nod yw sicrhau bod y rhai sy'n cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael lleisio'u barn a'u bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso gymaint ag sy'n bosibl i wneud penderfyniadau yn ymwneud â'u gofal a'u triniaeth.

Mae gennym banel o adolygwyr profiadol ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl sydd wedi cael eu trosglwyddo o Gomisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl. Maent yn gweithredu rhaglen dreigl o ymweliadau â rhybudd ac ymweliadau dirybudd â darparwyr iechyd meddwl.

Mae'r adolygwyr yn canolbwyntio ar sicrhau bod pawb sy'n derbyn gofal a thriniaeth yng Nghymru ac y mae darpariaethau Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn berthnasol iddo:

- yn cael ei drin ag urddas a pharch
- yn derbyn triniaeth foesegol a chyfreithlon
- yn derbyn y gofal a'r driniaeth sy'n briodol i'w anghenion
- yn cael ei alluogi i fyw bywyd mor llawn ag sy'n bosibl.

Mae ein hadolygwyr yn ymweld ac yn siarad ag unigolion sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau sydd wedi cael eu gwneud dan bwerau'r Ddeddf. Cynhelir y trafodaethau hyn yn breifat a hynny dim ond pan fo'r unigolyn yn cydsynio. Bydd yr adolygydd yn ceisio canfod beth yw barn yr unigolyn am ei ofal a'i driniaeth a bydd yn sicrhau ei fod yn deall beth yw ei hawliau a beth yw'r rheswm dros y cyfyngiadau a osodwyd. Yn ychwanegol at hyn, bydd adolygwyr yn gwirio pob cofnod a gwaith papur sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau a osodwyd ar yr unigolyn ac yn sicrhau bod y gofynion a nodwyd yn y Ddeddf a'r Cod wedi cael eu bodloni. Bydd unrhyw bryderon yn cael eu trosglwyddo i lefel uwch ar unwaith ac yn cael eu dilyn yn ysgrifenedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymweliadau'n rhai dirybudd. Rhoddir adborth i'r uwch reolwyr ar ddiwedd yr ymweliad a gofynnir i sefydliadau ddarparu cynllun gweithredu i ni yn nodi sut y bwriadant fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a meysydd pryder a nodwyd.

Yn ystod 2013–14, cynhaliwyd 55 o ymweliadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Adroddir am ganfyddiadau'r ymweliadau hyn drwy lythyr rheoli i'r darparwr gofal iechyd. Nid yw'r llythyrau rheoli hyn wedi cael eu cyhoeddi o'r blaen gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth bersonol am gleifion unigol. Mae'r Adroddiad Monitro Iechyd Meddwl Blynyddol wedi cael ei ddefnyddio fel ffordd o sicrhau bod canfyddiadau cyffredinol ar gael i'r cyhoedd.<sup>10</sup>

Y flwyddyn nesaf byddwn yn adolygu'n trefniadau cyhoeddi er mwyn ystyried sut y gellid cyhoeddi canlyniadau ymweliadau unigol heb ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol am gleifion.

<sup>10</sup> Monitro defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn 2011–2013: <http://www.hiw.org.uk/opendoc/239672>

## Gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn

Mae'r gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn yn penodi meddygon annibynnol i roi ail farn fel dull diogelu i gleifion sydd naill ai'n gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer triniaethau penodol neu nad ydynt yn alluog i roi caniatâd. Nid rhoi ail farn glinigol yn y ffordd feddygol, fel y deellir yr ymadrodd yn gonfensiynol, yw swyddogaeth y gwasanaeth. Yn hytrach mae'n penderfynu a yw'r driniaeth a argymhellir yn amddiffynadwy yn glinigol ac a roddwyd ystyriaeth ddyledus i safbwynt a hawliau'r claf.

AGIC sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth yng Nghymru. Ar ôl derbyn cais am Feddyg a Benodwyd i roi Ail Farn ein nod yw sicrhau y bydd ymweliad yn digwydd o fewn:

- **Dau ddiwrnod gwaith ar gyfer cais am Therapi Electrogyhyrfol<sup>11</sup>**
- **Pum diwrnod gwaith ar gyfer cais am feddyginiaeth i glaf mewnol a**
- **10 diwrnod gwaith ar gyfer cais am Orchymyn Triniaeth Gymunedol<sup>12</sup>**

Yn y gorffennol, mae AGIC wedi cael rhywfaint o anhawster i ddyrannu ceisiadau am Feddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn o fewn ein hamserlenni yng Ngorllewin Cymru, felly ym mis Medi 2013 gwnaethom recriwtio prif feddyg a benodwyd i roi ail farn ac mae gennym gynlluniau i recriwtio rhagor o feddygon o'r fath ar gyfer gorllewin Cymru. Mae'r gwaith o recriwtio Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn wedi dechrau a bydd gennym lawer mwy erbyn diwedd haf 2014.

Daeth Adran 299 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 i rym ar 1 Mehefin 2012 yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn golygu na fydd yn rhaid i gleifion sy'n ddarostyngedig i Orchymyn

Triniaeth Gymunedol gael Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn i awdurdodi triniaeth, ac fe fydd y driniaeth yn hytrach yn dod yn gyfrifoldeb i Glinigydd Cyfrifol y claf<sup>13</sup>. Mae hyn yn golygu y bydd ychydig bach llai o bwysau ar y gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn.

Yn ystod 2013-14, derbyniodd AGIC 690 o geisiadau am Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn.

## Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Yn 2009 cyflwynodd y ddeddfwriaeth Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid<sup>14</sup> ddyletswydd ar Lywodraethau i fonitro'r ffordd y maent yn cael eu rhoi ar waith a'u gweithredu. Yng Nghymru, roedd y ddyletswydd hon yn disgyn ar Weinidogion Cymru, a ddirprwyodd y cyfrifoldeb i AGGCC ar gyfer gofal cymdeithasol ac AGIC ar gyfer gwasanaethau iechyd.

Mae'r Trefniadau Diogelu yn bwysig am eu bod yn darparu fframwaith cyfreithiol o amgylch colli rhyddid a ddylai atal torri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gallai unrhyw un ohonom gollu'r gallu i wneud penderfyniadau dros dro neu yn barhaol am sut yr ydym yn dymuno derbyn gofal, boed o ganlyniad i anaf annisgwyl, cyflwr dirywiol neu nam gydol oes. Er bod y nifer o bobl y mae'r Trefniadau Diogelu wedi eu defnyddio ar eu cyfer yn dal yn fach, mae llawer mwy o bobl o bosibl, nad oes ganddynt y gallu, sy'n golygu bod angen trafodaeth gadarn a llawn gwybodaeth ynglŷn â'u llesiant a'u lles.

Mae AGGCC ac AGIC yn gweithio gyda'i gilydd i gasglu a dadansoddi data perthnasol er mwyn monitro gweithrediad y trefniadau diogelu yng Nghymru.

<sup>11</sup> Ffurf ar driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol lle mae trawiadau'n cael eu cymell drwy roi trydan drwy ymennydd claf dan anaesthetig; defnyddir hyn yn gyffredinol ar gyfer triniaeth iselder difrifol.

<sup>12</sup> Awdurdodiad ysgrifenedig, ar ffurflen a ragnodwyd, i ryddhau claf o gael ei gadw mewn ysbyty, i gael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth.

<sup>13</sup> Y Clinigydd Cyfrifol yw'r clinigydd cymeradwy â chyfrifoldeb cyffredinol am achos y claf.

<sup>14</sup> Mae Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn berthnasol i bobl nad yw'r gallu ganddynt yn benodol i roi caniatâd i driniaeth neu ofal, naill ai mewn ysbyty neu gartref gofal, na ellir ond eu darparu, er eu lles gorau eu hunain, mewn amgylchiadau sy'n gyfyfystyr â cholli rhyddid, a lle nad yw cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn briodol. Nod y Trefniadau Diogelu yw sicrhau bod pobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt dan y drefn sy'n cyfyngu leiaf arnynt.

Bob blwyddyn ers cyflwyno'r Trefniadau Diogelu mae AGIC wedi cyhoeddi adroddiad ar y cyd ag AGGCC, yn nodi canlyniadau ein gweithgaredd monitro ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

<http://cssiw.org.uk/our-reports/national-thematic-report/2014/dols-report-2014/?skip=1&lang=cy>

Dangosodd yr adroddiad monitro blynyddol bod nifer y ceisiadau am Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn amrywio yng Nghymru. Ymrwymodd AGIC ac AGGCC i wneud rhagor o waith i edrych ar effeithiolrwydd y trefniadau a'r modd y maent yn cael eu cymhwyso gan fod nifer y ceisiadau'n amrywio yng Nghymru. Cytunwyd y byddai AGIC ac AGGCC yn gwneud hyn drwy Adolygiad Cenedlaethol ar y cyd. Fel rhan o'r Adolygiad Cenedlaethol cynhaliodd AGIC ac AGGCC dri gweithdy rhanbarthol yn hydref 2013 gan wahodd rhanddeiliaid i rannu eu barn a'u profiadau o'r trefniadau. Yna cynhaliodd AGIC ac AGGCC arolygiad o bob Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol yng Nghymru er mwyn canfod pa drefniadau sydd ym mhob un ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae'r wybodaeth hon wedi cyfrannu tuag at ran olaf yr Adolygiad Cenedlaethol, sef y gwaith maes. Cynhaliwyd ymweliadau arolygu ym mhob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru gan AGIC ac mewn saith awdurdod lleol gan AGGCC ym mis Mai 2014. Bydd canfyddiadau'r ymweliadau'n cael eu cyhoeddi mewn adroddiad Adolygiad Cenedlaethol ar y cyd yn niwedd yr hydref 2014.

### Cyfraniad i'r Mekanwaith Ataliol Cenedlaethol

Sefydlwyd y Mekanwaith Ataliol Cenedlaethol yn 2009 gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiwallu rhwymedigaethau cytuniad y Cenedloedd Unedig o ran triniaeth unrhyw un a gedwir mewn unrhyw fath o gaethiwed. Dylai'r Mekanwaith gael yr hawl i arolygu pob man cadw yn rheolaidd at ddiben monitro triniaeth a chyflwr y rhai sy'n cael eu cadw, gyda'r

diben clir o atal cam-drin unrhyw un sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid.

Mae'r Mekanwaith wedi'i ffurfio o 20 o gyfrif annibynnol, ac mae ei waith yn cael ei gydgysylltu gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Mae AGIC yn un o'r 20 aelod hyn.

Bob blwyddyn er 2011 mae AGIC wedi cyfrannu tuag at Adroddiad Blynyddol sy'n cael ei gyhoeddi gan y Mekanwaith. Mae'r adroddiadau hyn yn crynhoi gweithgareddau'r 20 aelod ac yn darparu trosolwg o amgylchiadau cadw gwahanol leoliadau, gan gynnwys carchardai, dalfa'r heddlu, llety diogel i blant, canolfannau mewnfudo, canolfannau milwrol a sefydliadau iechyd meddwl. <http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprison/national-preventative-mechanism/>

### Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaid â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (a'u diwygiadau dilynol yn 2006 a 2011). Rydym yn cyflawni hyn drwy raglen o asesu ac arolygu adrannau clinigol sy'n defnyddio ymbelydredd Ïoneiddio. Rydym hefyd yn adolygu digwyddiadau yr hysbysir ni amdanynt ynghylch 'datguddiadau llawer mwy nag a fwriadwyd'.

Bwriad y rheoliadau yw:

- Amddiffyn cleifion rhag datguddiad gormodol neu anghywir nas bwriedir i ymbelydredd a sicrhau, ym mhob achos, bod y risg o ymbelydredd yn cael ei asesu yn erbyn y lles clinigol
- Sicrhau nad yw cleifion yn derbyn dim mwy o ymbelydredd nag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r effaith a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg gyfredol
- Amddiffyn gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil meddygol neu fiomeddygol, diagnostig neu therapiwtig a'r rhai sy'n derbyn triniaeth feddygol-gyfreithiol.

O ystyried natur arbenigol y maes hwn, rydym yn gweithio gydag lechyd Cyhoeddus Lloegr i sicrhau ein bod yn gallu cael cyngor arbenigol i gefnogi elfennau arolygu ac ymchwilio ein gwaith yn y maes hwn.

Yn ystod 2013-14 derbyniwyd 52 hysbysiad o 'ddatguddiad llawer mwy nag a fwriadwyd' gan 6 Bwrdd lechyd ac I Ymddiriedolaeth y GIG. Ystyriwyd pa un a archwiliwyd yr achosion hyn yn briodol a pha un a gymerwyd camau gweithredu adferol priodol yn ôl yr angen gan y sefydliad. Gwnaethom hyn drwy gasglu gwybodaeth fanwl yn ymwneud â'r datguddiadau gan y Byrddau lechyd ac asesu'r hysbysiadau fel Panel.

Yn gyffredinol, yn y rhan fwyaf o'r achosion, nodwyd nad oedd gweithdrefnau adnabod priodol wedi cael eu dilyn ac, o ganlyniad, bod y claf anghywir wedi cael yr ymbelydredd.

Yn 2013-14 collodd AGIC y capasiti i weithredu ei rhaglen arolygu ragweithiol yn y maes hwn oherwydd natur arbenigol y gwaith. Mae sylw'n cael ei roi i'r anhawster hwn drwy recriwtio adolygwyr cymheiriaid arbenigol a rhoddir blaenoriaeth i arolygiadau yn y maes hwn yn 2014-15.

### Cyffuriau a Reolir

Mae Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwyllo Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008 yn sefydlu gofynion clir ar gyfer trafod cyffuriau a reolir yn ddiogel ac yn effeithiol. Parhaodd AGIC i gynnal a chyhoeddi rhestr o swyddogion cyfrifol yng Nghymru.

### Adolygiadau i Laddiadau

Mewn amgylchiadau lle mae claf sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn gysylltiedig â lladdiad, efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu adolygiad allanol annibynnol o'r achos i sicrhau bod unrhyw wersi y gellid eu dysgu yn cael eu nodi ac y gweithredir arnynt. Cyhoeddodd AGIC yr adolygiadau a ganlyn yn 2013-14

#### 12 Medi 2013

Adroddiad ar adolygiad ynglŷn â Mr J a darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl, ar ôl Lladdiad a gyflawnwyd ym mis Mawrth 2010

#### 4 Ebrill 2014

Adroddiad ar adolygiad ynglŷn â Mr K a darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl, ar ôl Lladdiad a gyflawnwyd ym mis Mawrth 2011

Roedd y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn dilyn yr adolygiadau hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- **Cyfathrebu gwael o fewn gwasanaethau, a rhwng sefydliadau.**
- **Diffygion â threfniadau rhannu gwybodaeth, yn enwedig mewn cysylltiad â chyfathrebu a deall risg**
- **Anghysonderau ag asesu, adnabod a rheoli risg**
- **Gwendidau yn y broses gyfeirio o ofal sylfaenol i wasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned**
- **Heriau wrth ymgysylltu ag unigolion digartref.**

### Digwyddiadau Rheoliad 30/31 (Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011)

Gwnaethom fonitro darparwyr gofal iechyd annibynnol, gan ystyried gwybodaeth a gafwyd o ffynonellau amrywiol.

Un o brif elfennau ein gweithgaredd monitro parhaus oedd ein hadolygiad o ddigwyddiadau hysbysadwy neu ddigwyddiadau anffafriol difrifol y mae'n ofynnol i ddarparwyr roi gwybod i ni amdanynt drwy gydol y flwyddyn. Yn gyfreithiol, mae'n rhaid i unigolion cofrestredig<sup>15</sup> roi gwybod i ni am achosion neu ddigwyddiadau penodol a allai effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch cleifion.<sup>16</sup>

Mae'r nifer a'r math o ddigwyddiadau hysbysadwy a gafodd eu derbyn a'u monitro gan AGIC er 1 Ebrill 2013 wedi eu gosod isod.

<sup>15</sup> Unigolyn sy'n ddarparwr cofrestredig (unigolyn sy'n rhedeg gwasanaeth ar ei ben ei hun) neu reolwr cofrestredig sefydliad neu asiantaeth.

<sup>16</sup> Mae Rheoliad 27 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 yn darparu ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau neu achosion a allai effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch cleifion. Daeth Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 i rym ar 5 Ebrill 2011. Roeddent yn disodli rheoliadau 2002 a gelwir hysbysiadau Rheoliad 27 yn hysbysiadau rheoliad 30/31 bellach. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r gofynion ar ddarparwyr a rheolwyr cofrestredig gofal iechyd annibynnol yn y cyswllt hwn ar gael yn [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)



Mae'r nifer a'r math o ddigwyddiadau hysbysadwy a gafodd eu derbyn a'u monitro gan AGIC **er I Ebrill 2013** wedi eu gosod isod.

Y Math o Ddigwyddiad	Cyfanswm
Marwolaeth claf mewn hosbis	821
Marwolaeth claf (heb gyfrif hosbisau)	8
Absenoldeb heb ganiatâd	75
Anaf difrifol	92
Achos o glefyd heintus	2
Honiad o gamymddwyn gan aelod o staff a achosodd niwed gwirioneddol neu'r posibilrwydd o niwed	35

### Adolygiadau ar y Cyd ag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

#### Marwolaethau yn y Ddalfa mewn Carchardai yng Nghymru

Mae AGIC yn cynnal adolygiadau clinigol o farwolaethau yn y ddalfa ar ran yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf fel rhan o'u hymchwiliadau i farwolaethau mewn carchardai yng Nghymru. Cyhoeddir adroddiadau adolygiadau o farwolaethau mewn carchardai gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf.

Cwblhaodd AGIC 11 adolygiad clinigol yn 2013-14. Mae'r adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf i'w gweld yma:

<http://www.ppo.gov.uk/prison-investigations.html>

Amlygwyd nifer o faterion yn yr adolygiadau clinigol unigol a gynhaliwyd gan AGIC yn 2013-14. Roedd y themâu allweddol yn ymwneud â'r canlynol:

- Rheoli cofnodion
- Cael gfael ar gofnodion meddygol a gwybodaeth am garcharorion newydd
- Rheoli clefydau cronig

- Cyfathrebu rhwng Carchardai a'r Ysbytai Dosbarth Lleol
- Apwyntiadau wedi'u canslo yn yr Ysbytai Lleol.

#### Gwaith ar y cyd â'r Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol

Mae AGIC wedi cynorthwyo Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi â rhaglen o gydarolygiadau achosion craidd o Wasanaethau Troseddau Ieuentid yng Nghymru. Mae'r arolygiadau hyn yn edrych ar effeithiolrwydd gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu.

Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi'n arwain rhaglen Cydarolygiadau Llawn mewn partneriaeth ag arolygiaethau eraill sy'n ymwneud ag iechyd, gofal cymdeithasol plant, addysg a hyfforddiant a'r heddlu. Mae'r cydarolygiad llawn yn arolygiad wedi'i dargeddu sy'n cael ei gynnal mewn nifer fach o dimau troseddau ieuentid bob blwyddyn, gan gynnwys o leiaf un yng Nghymru. Rydym yn ymwneud â'r cydarolygiad llawn Cymreig hwn fel yr arolygiaeth bartner ar gyfer iechyd.

Arolygiad gwaith maes sy'n para am bythefnos yw'r Cydarolygiad Llawn. Yn ystod yr wythnos gyntaf bydd arolygwyr o Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi'n asesu ansawdd sampl gynrychioladol o achosion statudol sydd ar agor ar hyn o bryd

gyda'r tîm troseddau ieuencid. Yn yr ail wythnos, bydd arolygwr o AGIC, ynghyd ag arolygwyr o Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) ac AGGCC yn ymuno â thîm Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i archwilio a chael gwell dealltwriaeth o ganfyddiadau'r wythnos gyntaf ac asesu ansawdd gwaith partneriaeth. Yna byddwn yn cyfrannu tuag at adroddiad arolygu terfynol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Yn 2013–2014 cyfrannodd AGIC tuag at gydadolygiad llawn o Waith Troseddau Ieuencid yn Wrecsam. Cynhaliwyd yr arolygiad ym mis Medi 2013 a chyhoeddwyd yr adroddiad ar 22 Ionawr 2014. Mae'r adroddiad i'w weld ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi: <http://www.justiceinspectrates.gov.uk/hmiprobation/>

### Adolygiad gan Gymheiriaid +

Mae'r rhaglen adolygiad gan gymheiriaid yn gydweithrediad rhwng AGIC, Rhwydwaith Canser De Cymru, Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru a'r Bwrdd Gweithredu Gofal Lliniarol.

Y Rhwydweithiau Canser / y Bwrdd Gweithredu Gofal Lliniarol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am:

- Gynllunio pob adolygiad gan gymheiriaid
- Cydgysylltu elfen hunanasesu'r adolygiad gan gymheiriaid
- Cynorthwyo arweinwyr cancer mewn Byrddau Iechyd i gwblhau'r hunanasesiad lle bo angen
- Gwirio dogfennau hunanasesu'r Bwrdd Iechyd yn allanol
- Hyfforddi, recriwtio a dewis aelodau tîm yr adolygiad gan gymheiriaid
- Gwneud cofnod ffurfiol o bob ymweliad Adolygiad gan Gymheiriaid
- Paratoi adroddiad – yn dilyn pob ymweliad adolygu – bydd fersiwn drafft ohono'n cael ei adolygu gan yr Hosbis/Bwrdd Iechyd priodol cyn ei gyhoeddi.

Mae AGIC yn cefnogi'r broses adolygiad gan gymheiriaid drwy:

- Helpu i gynllunio a threfnu pob adolygiad
- Ysgrifennu'n ffurfiol at Fyrdau Iechyd pan fydd pob adolygiad yn dechrau
- Gwneud trefniadau i Fyrdau Iechyd gyflwyno'u dogfennau hunanasesu'n electronig
- Arsylwi ar y broses adolygiad gan gymheiriaid er mwyn sicrhau ei bod yn deg ac yn ddiuedd a bod canlyniad yr adolygiad yn cael ei gyfathrebu'n agored ac yn dryloyw.

Disgwylir y bydd y Bwrdd Iechyd/Hosbis yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a godwyd yn yr adroddiad hwn. Mae AGIC wedi cytuno i gadw'r adroddiadau hyn er mwyn cefnogi dull agored a thryloyw o adrodd am gasgliadau. O ganlyniad, cyhoeddir fersiwn cyhoeddus o'r adroddiad a'r cynllun gweithredu ar wefan AGIC. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael hefyd ar wefan y Bwrdd Iechyd y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef.

Mae AGIC yn rhoi sylw i hyn a gwybodaeth arall wrth ystyried ei dull seiliedig ar risg o arolygu a throsglwyddo pryderon i lefel uwch.

Cefnogodd AGIC yr adolygiadau gan gymheiriaid a ganlyn yn 2013–2014:

#### Yr Ysgyfaint

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

#### Rhan Uchaf y Llwybr Gastroberfeddol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Wroleg

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Y Pidyn

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Bwrdd Iechyd Cwm Taf.

## 3.4 Ymateb i bryderon a phroblemau

Rydym yn derbyn pryderon gan aelodau o'r cyhoedd yn rheolaidd drwy lythyrau, negeseuon ebost neu alwadau ffôn. Nid swyddogaeth AGIC yw ymchwilio'n rheolaidd i bryderon am ofal a thriniaeth unigolyn; ymdrinnir â'r rhain drwy broses gwyno GIG Cymru, Gweithio i Wella.

Er hyn, rydym yn ystyried yr holl wybodaeth yr ydym yn ei derbyn ac yn ei defnyddio i wella'n gwaith – yn enwedig os byddwn yn gweld bod patrwm o bryderon yn ymddangos ynglŷn â lleoliad neu wasanaeth gofal iechyd unigol. Gallai'r wybodaeth hon sbarduno ymweliadau arolygu dirybudd neu adolygiad arbennig mewn amgylchiadau penodol.

Rydym yn adolygu ac yn ystyried pob pryder yr ydym yn ei dderbyn er mwyn penderfynu beth yw'r ymateb mwyaf priodol. Efallai y byddwn yn cyfeirio'r unigolyn at gyrff eraill a all ei helpu i symud ymlaen â'i bryder, fel y bwrdd iechyd ei hun, gwasanaeth eiriolaeth y Cyngor Iechyd Cymuned Lleol neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Gall penderfyniad i gynnal ymchwiliad hefyd gael ei wneud neu ei ddylanwadu gan wybodaeth a gasglwyd gan AGIC neu gan gyrff archwilio, rheoleiddio ac arolygu eraill. Gall un o gyrff y GIG hefyd gyfeirio'i hun at AGIC a gofyn iddi gynnal

adolygiad o fater neu wasanaeth, ond byddai angen ystyried hyn ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill.

## Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd pan nad yw gwasanaethau'r GIG yn bodloni'r safonau a'r gofynion a bennwyd ar eu cyfer

Mae GIG Cymru yn ceisio darparu'r gofal gorau posibl i gleifion bob amser. Er hyn, mae problemau'n codi weithiau sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau, effeithiolrwydd sefydliadau a diogelwch ac ansawdd gofal. Yn y rhan fwyaf o achosion mae ymateb priodol yn cael ei wneud gan y sefydliad dan sylw. Fodd bynnag, ambell waith mae angen camau wedi'u cydgysylltu gan y rhai hynny sydd â chyfrifoldeb am oruchwylio, arolygu a rheoleiddio'r system gofal iechyd.

Cyflwynwyd **Trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru** ym mis Mawrth 2014. Mae'r trefniadau hyn yn nodi pryd y bydd Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac AGIC yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn rhannu gwybodaeth ac ymateb pan fo materion sy'n peri pryder yn dod i'r amlwg yng nghyrrff y GIG yng Nghymru. Gallant olygu y bydd AGIC yn cynnal ymchwiliad ar ei phen ei hun neu ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru.

Bydd rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ac yn effeithiol yn golygu bod modd rhoi sylw cynnar i bryderon a allai gael effaith ddifrifol. Byddwn yn gweithio gyda chyrrff perthnasol y GIG er mwyn sicrhau bod camau ymatebol priodol yn cael eu cymryd.

## Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd pan nad yw gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yn bodloni'r safonau a bennwyd ar eu cyfer

Mae AGIC yn gyfrifol am sicrhau bod pob darparwr sydd wedi'i gofrestru i ddarparu Gofal Iechyd Annibynnol yn cydymffurfio â'r gofynion a nodwyd yn Neddf Safonau Gofal 2000 a rheoliadau a safonau cysylltiedig. Mae cydymffurfio â'r darpariaethau statudol hyn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu i gleifion yn bodloni safonau diogelwch ac ansawdd hanfodol.

Barn AGIC yw bod darparwyr yn gyfrifol am ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu darparu ac am gydymffurfio â rheoliadau a safonau.

Yn 2013-14 cychwynasom adolygiad o'n proses orfodi gyda'r bwriad o nodi'n glir ein hymateb i ddiffyg cydymffurfiad darparwyr gofal iechyd annibynnol â rheoliadau a safonau.

Mae'r gwaith hwn yn parhau a gobeithiwn gyhoeddi'r broses orfodi ddiwygiedig yn hydref 2014.

### 3.5 Adrodd yn glir, yn agored ac yn gyhoeddus

#### Cryfhau ein trefniadau cyfathrebu

Rydym wedi cynnal adolygiad sylfaenol o'n trefniadau cyfathrebu presennol yn 2013-14 ac yn yr hydref llwyddasom i recriwtio swyddog cyfathrebu amser llawn.

Mae hyn wedi'n galluogi i symud ymlaen â gwaith datblygu pwysig gan gynnwys rheoli datblygiad ein gwefan newydd er mwyn i ni allu lansio'r fersiwn newydd yn gynnar yn 2014-15. Mae hyn yn rhan o raglen waith barhaus i wella'r modd rydym yn cyfathrebu â rhanddeiliaid ar y rhynggrwyd.

Er mwyn helpu defnyddwyr gwasanaeth i wybod a yw darparwyr annibynnol wedi'u cofrestru gydag AGIC rydym yn cynnal ac yn cyhoeddi rhestr gyflawn a chyfredol o ddarparwyr gofal iechyd annibynnol cofrestredig.

#### Cynhyrchu adroddiadau'n gyflymach

Yn 2013-14 cyflwynasom wybodaeth am yr hyn y gwnaethom ei ganfod yn dilyn arolygiadau mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:

- **Sylwadau ar lafar ar unwaith ar ddiwrnod olaf arolygiad**
- **Llythyrau rheoli sy'n gofyn am gamau brys**
- **Llythyrau rheoli cyffredinol sy'n crynhoi'r meysydd y dylid rhoi sylw iddynt**
- **Adroddiadau traddodiadol.**

Mynegwyd pryder yn gwbl briodol yn y gorffennol bod AGIC yn cymryd gormod o amser i gynhyrchu adroddiadau. Drwy adolygu ein prosesau yn ystod 2013-14 rydym wedi gallu cyhoeddi safonau adrodd clir ar gyfer y flwyddyn nesaf a fydd yn sicrhau bod adroddiadau wedi'u cwblhau yn cael eu cyhoeddi ar-lein ddim hwyrach na thri mis ar ôl dyddiad yr arolygiad.

Mae'r dull hwn yn cael effaith yn barod: yn ystod 2013-14 cyhoeddasom y cynllun gweithredol ar gyfer y flwyddyn honno ym mis Rhagfyr 2013. Llwyddwyd i gyhoeddi'r cynllun gweithredol ar gyfer 2014-15 naw mis yn gynt felly roedd y cynllun ar gael cyn dechrau'r flwyddyn ariannol honno.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn hefyd wedi cael ei gyhoeddi cyn pen pedwar mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol: chwe mis yn gynt.

## Adroddiadau eraill

Yn ystod 2013-2014 rydym wedi cyhoeddi:

- Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol ar gyfer Ysbyty Treforys
- Arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datgelu Meddygol) dirybudd yn Ysbyty Maelor Wrecsam (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)
- Cydarolygiad o waith troseddau ieuencid ym Mhowys
- Defnydd troseddol o gelloedd yr heddlu? Defnyddio dalfa'r heddlu fel lle diogel i bobl sydd ag anghenion iechyd meddwl (adroddiad ar y cyd rhwng arolygiaethau cwnstabiliaeth a charchardai Ei Mawrhydi, y Comisiwn Ansawdd Gofal ac AGIC)
- Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Adolygiad ar y Cyd a wnaethpwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru
- Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol 2012-2013
- Adroddiad ar adolygiad ynglŷn â Mr J a darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl, ar ôl Lladdiad a gyflawnwyd ym mis Mawrth 2010
- Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol ar gyfer Bwrdd Addysgu Iechyd Powys

- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Adolygiad Dilynol o Faterion Diogelwch
- Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2012-2013
- Adolygiad o Ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i'r Traws-heintiad ESBL E.coli yn yr Uned Famolaeth/Babanod Newydd-anedig yn Ysbyty Singleton yn Nhachwedd 2011
- Cynllun Gweithredol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2014-2015
- Adroddiad adolygiad o'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan (BIAB) yn dilyn marwolaeth Miss A yn 2010
- 3 adroddiad ar arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol
- 17 llythyr rheoli yn ymwneud ag arolygiadau iechyd meddwl / arolygiadau anabledd dysgu
- 23 llythyr rheoli yn ymwneud ag arolygiadau darparwyr gofal iechyd annibynnol

Rydym hefyd wedi cynhyrchu 40 llythyr rheoli yn ymwneud ag Ymweliadau Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi'n unigol am resymau yn ymwneud â chyfrinachedd cleifion a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Rydym hefyd wedi cyfrannu tuag at nifer o adroddiadau eraill sydd i'w gweld ar wefannau eraill ar hyn o bryd fel y nodwyd yn gynharach:

- [Marwolaethau yn y ddalfa](#)
- [Tirau troseddau ieuencid](#)
- [Mecanwaith ataliol cenedlaethol.](#)

Yn 2014-15 byddwn yn edrych ar y modd y cyfeirir at yr adroddiadau hyn drwy ein gwefan er mwyn helpu'n rhanddeiliaid i gael mynediad atynt.

# 4 Galluogi ein sefydliad i gyflawni

## 4.1 Sicrhau mynediad at y sgiliau a'r profiad rydym ei angen

### Prosiect adolygydd cymheiriaid

Yn 2013-14 gwnaethom ddatblygu dull yn seiliedig ar fodelau cymysg o ganfod a recriwtio adolygwyr allanol. Mae hyn wedi'n galluogi i fod yn fwy ymatebol ac wedi rhoi'r hyblygrwydd inni allu cael gafael ar y math o arbenigedd rydym ei angen er mwyn bodloni'r gofynion penodol a nodir yn ein cynlluniau presennol ac mewn cynlluniau yn y dyfodol.

Cwblhawyd y dull hwn yn hydref 2013 ac ar ddechrau 2014 dechreuasom ymgyrch recriwtio fawr er mwyn canfod a recriwtio adolygwyr a fydd yn ein helpu i weithredu rhaglen waith AGIC ac yn cynnig cymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosibl.

Roedd yr ymgyrch recriwtio'n canolbwyntio ar ganfod ystod o arbenigwyr clinigol i lenwi'r rolau adolygu a ganlyn:

*Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn.* Adolygydd cymheiriaid – meddyg annibynnol wedi'i benodi gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n rhoi ail farn ynglŷn ag a ddylid rhoi mathau penodol o driniaethau meddygol ar gyfer anhwylder meddyliol heb gydsyniad y claf.

*Y Ddeddf Iechyd Meddwl.* Adolygydd Cymheiriaid â gwybodaeth a phrofiad o'r Ddeddf Iechyd Meddwl sy'n gallu gwneud asesiadau seiliedig ar dystiolaeth o leoliadau gofal iechyd a dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn amddiffyn cleifion sy'n cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

*Glanweithdra a Rheoli Heintiau.* Adolygwyr cymheiriaid – mae'r rhai sy'n cael eu defnyddio

ar hyn o bryd yn cael eu cyflogi ym maes gofal iechyd yn y maes arbenigol hwn yn y rolau a ganlyn – pennaeth nyrsio; nyrs rheoli heintiau / nyrs arweiniol / uwch nyrs a nyrs glinigol arbenigol.

*Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol.* Adolygwyr cymheiriaid – mae'r rhai sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn cael eu cyflogi ym maes gofal iechyd. Nodwyd hefyd y byddai'n dda o beth pe bai cyfran o'r adolygwyr urddas a gofal hanfodol yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

*Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau.* Mae'r adolygiadau hyn yn cynnwys adolygwyr cymheiriaid ac adolygwyr lleeg. Mae gan yr adolygwyr cymheiriaid brofiad arbenigol ym maes camddefnyddio sylweddau.

*Gwaith Ymchwilio/Lladdiadau.* Defnyddir cyfuniad o adolygwyr cymheiriaid ac adolygwyr lleeg. Bydd y dewis yn dibynnu ar natur a chyd-destun pob achos penodol, er enghraifft ar gyfer Lladdiadau mae'n debygol iawn y bydd arnynt angen seiciatrydd neu nyrs lechyd Meddwl a byddant yn aml yn chwilio am rywun sy'n aelod o'r Coleg Brenhinol ac nad yw wedi'i leoli yng Nghymru.

Mae Byrddau Iechyd Lleol, Cymunedau Ymarfer a chyrrff eraill wedi dangos eu cefnogaeth drwy hyrwyddo'r ymgyrch. Mae cryn dipyn o ddiddordeb wedi'i fynegi'n barod gan bobl sy'n gweithio mewn meysydd arbenigol o bob math sy'n awyddus iawn i wella canlyniadau i gleifion, sydd wedi ymrwymo i wella ansawdd ac sydd â diddordeb mewn gwneud gwahaniaeth drwy weithio gydag AGIC. Bydd diweddariad terfynol i'w weld yn ein hadroddiad nesaf.

## Cadw cleifion a defnyddwyr yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud

Rydym hefyd yn cyflogi adolygwyr lleyg sy'n aelodau o'r cyhoedd i ddod â safbwynt y cyhoedd, cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau i'n gwaith er mwyn sicrhau bod safbwynt a phrofiad cleifion yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn ein gwaith. Yn 2013-14 cryfhawyd ein panel

o adolygwyr lleyg ar gyfer swyddogaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol fel y nodir isod.

*Awdurdod Goruchwylio Lleol – Adolygwyr mamolaeth.* Adolygwyr lleyg – i gyd yn ddefnyddwyr gwasanaethau mamolaeth..

Yn 2014-15 byddwn yn recriwtio er mwyn cryfhau ein panel o adolygwyr lleyg ar gyfer agweddau eraill ar ein gwaith.

## 4.2 Cefnogi dull proffesiynol o reoleiddio ac arolygu

### Datblygu capasiti a gallu ein gweithlu craidd

Yn 2013-14, rydym wedi cynnal ymgyrch recriwtio i lenwi swyddi gwag gan ein bod wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y staff yn ystod y cyfnod. Mae'r ymgyrch recriwtio hon yn parhau i 2014-15 er mwyn datblygu ein capasiti a'n gallu.

Math	Swyddi a lenwyd 1 Ebrill 2013	Staff wedi gadael AGIC	Staff wedi ymuno ag AGIC	Swyddi a lenwyd 30 Mawrth 2014
Parhaol	42	15	14	41
Cyfnod penodol	9	2	3	10

Mae nifer o'r staff presennol hefyd wedi cael eu dyrchafu neu eu symud i rolau newydd yn y sefydliad. O ganlyniad, rydym wedi rhoi blaenoriaeth uchel i ddiweddarau agwedd ein sefydliad at ddatblygu staff. Mae hyn wedi cynnwys:

- adolygu a diweddarau Strategaeth Dysgu a Datblygu AGIC i fod yn adlewyrchiad cywirach o'r blaenoriaethau cyfredol a'r cyfeiriad strategol.
- cynhyrchu cynllun ar gyfer y gweithgareddau dysgu a datblygu y cytunwyd y dylent gael blaenoriaeth, i'w roi ar waith o fis Ionawr 2014 tan fis Mawrth 2015.
- gwerthuso anghenion dysgu a datblygu cyfredol AGIC a'i hanghenion ar gyfer y dyfodol, drwy weithdai staff, cynhadledd staff, cwblhau archwiliad sgiliau, cyfarfodydd gydag uwch arweinwyr a chydweithrediad rhwng cydweithwyr mewn gwahanol arolygiaethau.

- cyflwyno proses gynefino newydd a sicrhau bod y staff presennol yn cael eu hyfforddi a'u galluogi i gyflawni.
- cytuno ar gynllun a fydd yn helpu i ddatblygu Fframwaith Sgiliau Proffesiynol, i alluogi staff AGIC i ddatblygu eu sgiliau proffesiynol ac arbenigol.
- archwilio holl anghenion dysgu a hyfforddi adolygwyr allanol a datblygu pecynnau cynefino a hyfforddi priodol sy'n briodol i staff AGIC ac i adolygwyr allanol.

Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru'n cynnal arolwg o'r holl staff i asesu eu barn ynglŷn â pha mor effeithiol y mae'r sefydliad yn gweithredu. Mae canlyniadau ar gael ar gyfer pob adran unigol.

Roedd y canlyniadau ar gyfer AGIC yn adlewyrchu natur ansefydlog y flwyddyn yn deillio o drosiant staff a symud prif swyddfa AGIC o Gaerffili i Ferthyr Tudful. Er mwyn ymateb i hyn cynaliasom gyfres o ddiwyddiadau ymgysylltu ar gyfer staff

mewnol. Bydd y gwersi a ddysgwyd o hyn yn cael eu defnyddio i ddatblygu digwyddiadau ar gyfer y staff cyfan yn y dyfodol gan gynnwys adolygwyr allanol. Roedd y digwyddiadau hyn yn arbennig o fuddiol i'r staff newydd a oedd wedi ymuno ag AGIC yn ystod y flwyddyn..

### Datblygu ymarfer proffesiynol arolygu ac ymchwilion

Cyflwynasom rôl Cyngorydd Gwasanaethau Clinigol ym mis Rhagfyr 2013. Mae hon yn rôl allweddol sy'n darparu cyngor clinigol a chyngor am wasanaethau ac sy'n darparu rhyngwyneb rhwng AGIC a grwpiau a sefydliadau proffesiynol ehangach.

Mae'r rôl Cyngorydd Gwasanaethau Clinigol wedi darparu mewnbwn i hyfforddiant Adolygwyr Cymheiriaid a staff AGIC. Mae gwaith sy'n mynd rhagddo gyda phob aelod o'r tîm Arolygu'n cynnwys dulliau gweithredu proffesiynol a'r arferion gorau mewn meysydd clinigol, ynghyd â datblygu sgiliau pob rheolwr arolygu mewn timau arweiniol gyda nifer o wahanol adolygwyr lleig ac adolygwyr cymheiriaid proffesiynol.

Mae AGIC wedi sefydlu Fforwm Nyrsio a Bydwreigiaeth Proffesiynol sy'n galluogi'r staff hynny sy'n cynnal eu cofrestrriad proffesiynol i rwydweithio, cael goruchwyliaeth broffesiynol a chadw i fyny â'r datblygiadau diweddaraf. Mae nifer o siaradwyr gwadd wedi cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi ac ymarfer sy'n berthnasol i gynllun gweithredol AGIC.

### Datblygu ein hunain

Yn 2013-14 gweithiodd AGIC gyda rhanddeiliaid allanol a staff i ddatblygu rhaglen o weithgareddau wedi'u blaenoriaethu er mwyn gwella ei heffeithlonrwydd a'i heffeithiolrwydd ei hun. Gwrandawodd AGIC ar ei staff ei hun drwy ddigwyddiadau datblygu, a rhoi sylw hefyd i ganfyddiadau arolwg staff 2013. Lansiodd bwrdd rhaglen datblygu sefydliadol, â chynrychiolaeth allanol ac annibynnol. Mae'r bwrdd wedi darparu her i gynlluniau AGIC yn ogystal ag olrhain cynnydd ar sail amcanion a chyflawniadau allweddol.

Cefnogwyd hyn drwy recriwtio staff i nifer o swyddi allweddol y llynedd ac mae hyn wedi cynyddu'n gallu a'n cefnogaeth gorfforaethol yn sylweddol:

Mae ein Swyddog Cyfathrebu wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu'n gwefan newydd, gwella cyfathrebu mewnol, a rhoi cyngor ynglŷn â sut i gryfhau ein trefniadau cyfathrebu â rhanddeiliaid allanol

Mae ein Swyddog Rhaglenni wedi gwella'n gallu i reoli rhaglenni a phrosiectau ac mae'n datblygu'r sgiliau staff, y systemau a'r wybodaeth rheoli sy'n ein helpu i gyflawni, fel y gwelwn o'r modd effeithlon y cynhyrchwyd cynllun gweithredol 2014-15

Mae ein Swyddog Dysgu a Datblygu wedi cael effaith uniongyrchol a sylweddol drwy gryfhau hyfforddiant a chefnogaeth i staff AGIC ac i bob un o'n hadolygwyr allanol

Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi penodi Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol. Mae ef yn awr yn gweithio'n systematig gyda'i dîm drwy ein polisiau a'n gweithdrefnau corfforaethol er mwyn sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithredu yn effeithlon, yn fodern ac yn addas i'r diben.



### 4.3 Cynnal trosolwg o'r risgiau, y materion sy'n codi a'r materion cyfredol

#### Gwella rhagor ar ein dealltwriaeth sail drwy ddatblygu ein swyddogaeth rheoli gwybodaeth

Yn 2013-14 gwnaethom gynyddu llif gwybodaeth i AGIC yn sylweddol er mwyn datblygu ein swyddogaeth gwybodaeth gorfforaethol. Gwnaethom wella'r ffordd roeddem yn storio ac yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod ein tîm arolygu yn cael ei frifio'n well cyn arolygiadau.

Rydym wedi mapio gwahanol ffynonellau tystiolaeth gan gynnwys data caled a gwybodaeth feddalach, gan ddefnyddio'r cyfle hwn i sefydlu llif gwybodaeth â phartneriaid allweddol. Er enghraifft, rydym wedi gwella'n defnydd o ddata'r archwiliadau Hanfodion Gofal yn sylweddol er mwyn cynyddu gwybodaeth cyn arolygiad ar gyfer yr ymweliadau Urddas a Gofal Hanfodol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol o'r ymweliadau a gwybodaeth leol gyda ni.

Rydym wedi adolygu'r proffiliau sefydliadol sy'n cael eu cynhyrchu i gefnogi'r berthynas rhwng rheolwyr yn AGIC. Mae'r rhain yn dod â gwybodaeth amrywiol at ei gilydd i helpu i greu darlun cyflawn a chytbwys o'r sefydliad dan sylw. Defnyddir y rhain wedyn i fwydo i mewn i'r uwchgynadleddau gofal iechyd.

Adolygwyd y model ar gyfer rheoli perthynas. Mae rheolwyr perthynas wedi cael eu nodi ar gyfer pob sefydliad. Bydd y broses ar gyfer gweithredu'r model hwn yn cael ei datblygu ymhellach yn 2014-15.

Cynhyrchir pecynnau cyn arolygiad cyn ymweliadau ac arolygiadau. Bydd y rhain yn dod â gwybodaeth amrywiol sy'n berthnasol i'r math o arolygiad at ei gilydd i roi darlun cyfannol i'r tîm adolygu cyn dechrau'r broses. Byddant hefyd yn dylanwadu ar ganolbwynt agweddau penodol ar yr arolygiad.

#### Rhannu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gennym am sefydliadau a gwasanaethau'r GIG er mwyn sefydlu proffil risg cydlynus, cyffredinol a all gefnogi datblygiad cynllun sicrwydd integredig i GIG Cymru

Rydym wedi dal i wella'r ffordd y mae gwybodaeth am sefydliadau'r GIG yn cael ei storio er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei haildefnyddio gymaint ag sy'n bosibl yn AGIC.

Yn 2013-14 dechreuasom adolygu'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a oedd gennym gyda sefydliadau eraill er mwyn eu diweddarau a'u cymeradwyo'n derfynol yn ystod 2014-15. Mae hyn wedi'n galluogi i rannu gwybodaeth mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon. Er enghraifft, mae AGIC erbyn hyn yn defnyddio data sy'n ymwneud â hysbysu ynglŷn â digwyddiadau difrifol mewn ffordd fwy dibynadwy. Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda rheoleiddwyr proffesiynol cenedlaethol eraill er mwyn sicrhau bod gennym ffynonellau gwybodaeth ehangach a mwy cynhwysfawr, fel y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ac eraill.

Fel y nodwyd uchod, mae'r farn gyfannol a geir drwy ddadansoddi a dehongli tystiolaeth am sefydliad yn cael ei bwydo i'r uwchgynadleddau gofal iechyd sy'n cael eu trefnu gan AGIC. Mae hyn yn ei dro'n bwydo i'r Fframwaith Dwysáu ac Ymyrryd y cyfeiriwyd ato'n gynharach.

#### 4.4 Seilio gweithgaredd ar safonau cydnabyddedig

Yn 2013-14, rydym wedi rhoi llawer iawn o sylw i'r dasg o sicrhau bod ein dulliau arolygu wedi'u seilio'n glir ac yn bendant ar safonau cydnabyddedig.

Mae hyn wedi digwydd mewn nifer o feysydd gwaith:

- O ganlyniad i'n gwaith i ddiweddarau ein harolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol rydym wedi cyfeirio'n benodol at y safonau, y canllawiau a'r arferion gorau sy'n sylfaen i'n gwaith
- Rydym yn cyfrannu tuag at yr Adolygiad Cenedlaethol o'r Safonau Gofal Iechyd i Gymru a'r safonau Hanfodion Gofal sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru
- Wrth i ni ddatblygu ein dull o arolygu deintyddion rydym hefyd yn gweithio mewn cysylltiad agos â Llywodraeth Cymru er mwyn diweddarau Rheoliadau sy'n ymwneud â deintyddiaeth breifat
- Mae'r fethodoleg rydym yn ei datblygu ar gyfer arolygu ymarfer cyffredinol yn seiliedig ar yr arferion gorau cydnabyddedig sy'n sail i'r dull hunanasesu a arferai gael ei hyrwyddo gan Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Rydym yn dal i ymwneud â datblygu cynigion deddfwriaethol ar gyfer Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru

# 5 Gweithio gydag eraill

## Ar draws y Deyrnas Unedig a thu hwnt

Rydym yn dal i ymwneud â gwaith Grŵp y Pum Gwlad yn y DU ac Iwerddon<sup>17</sup>, sef grŵp o reioleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol, Fforwm Penaethiaid Arolygiaethau'r Deyrnas Unedig a'r Llwyfan Ewropeaidd ar gyfer Sefydliadau Goruchwyllo (EPSO),<sup>18</sup> er mwyn sicrhau bod ein gwaith wedi'i seilio ar arferion arolygu, ymchwilio a rheoleiddio effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a'i fod yn dylanwadu ar eu datblygiad.

Yn 2013-14 roedd Dirprwy Brif Weithredwr blaenorol AGIC yn aelod o Dîm Adolygyr Cymheiriaid EPSO a fu'n gwneud Adolygiad gan Gymheiriaid o Awdurdod Iechyd a Meddyginiaethau Denmarc.

Rydym yn cysylltu â sefydliadau a rheoleiddwyr gweithwyr iechyd proffesiynol, megis Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru, y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth a chyrrff proffesiynol eraill i gael gwybodaeth arbenigol broffesiynol i'n helpu i wneud ein gwaith ac i gael gwybodaeth am ddatblygiad safonau proffesiynol ac arferion clinigol, a dylanwadu arnynt.

<sup>17</sup> Mae grŵp 'Pum Gwlad' y DU ac Iwerddon o reioleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys cynrychiolwyr o Gomisiwn Ansawdd Gofal Lloegr (CQC); Gwella Gofal Iechyd yr Alban (HIS); Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd Gogledd Iwerddon (RQIA) ac Awdurdod Ansawdd a Gwybodaeth Iechyd Iwerddon.

<sup>18</sup> Sefydlwyd y Bartneriaeth Ewropeaidd ar gyfer Sefydliadau Goruchwyllo mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (EPSO) yn 1996. Rhwydwaith Ewropeaidd ydyw o swyddogion sy'n gyfrifol am oruchwyllo a monitro ansawdd gofal iechyd yn eu gwledydd. Ei nod yw sicrhau gwell cydweithio o ran ansawdd gwaith arolygu, goruchwyllo a monitro gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn 2013-14 aeth AGIC i gynhadledd flynyddol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Siaradodd y Prif Weithredwr hefyd yng Nghynhadledd Flynyddol y Cyngor Meddygol Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2013 ac yng nghynhadledd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr 2013.

## Yng Nghymru

AGIC, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) a Swyddfa Archwilio Cymru yw'r pedwar prif gorff arolygu, archwilio ac adolygu yng Nghymru. O fewn fframwaith Cytundeb Strategol,<sup>19</sup> rydym yn gweithio mewn cysylltiad agos â'n gilydd er mwyn sicrhau bod pob un ohonom yn chwarae rhan weithgar yn y gwaith o wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym wedi cytuno ar brotocol gweithredu gyda Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned ac rydym yn dal i ddatblygu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda phartneriaid allweddol eraill.

## Concordat Cymru<sup>20</sup>

Cydweithrediad rhwng cyrrff sy'n arolygu, rheoleiddio, archwilio a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yw Concordat Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn cadeirio cyfarfodydd Fforwm y Concordat. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor Meddygol

<sup>19</sup> Llofnododd y pedwar prif gorff arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru gytundeb yn 2011 i hybu gweithio ar y cyd.

<sup>20</sup> Cytundeb gwirfoddol yw Concordat Cymru rhwng cyrrff arolygu, adolygu allanol a gwella sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. <http://www.walesconcordat.org.uk/>

Cyffredinol yn 2013-14 er mwyn diweddarau Cytundeb y Concordat ac adolygu'r aelodaeth er mwyn sicrhau bod yr holl gyrff allweddol yn cael eu cynrychioli. Disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

### Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

Yn ystod hydref 2013 gwnaethom hwyluso'n rhaglen arferol o uwchgynadleddau gofal iechyd gyda'r bwriad o hwyluso rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Mae'r uwchgynadleddau'n cynnwys gyrff sy'n gweithio mewn gwahanol rannau o Gymru, sy'n gyfrifol am arolygu, archwilio, rheoleiddio a gwella gofal iechyd ac maent yn gyfle da i rannu a phrofi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gennym am sefydliadau'r GIG er mwyn sefydlu asesiad cyffredinol, cydlynol sy'n sbarduno ein cynlluniau perthynol. Byddant yn rhan allweddol o'r broses o gasglu gwybodaeth i gefnogi'r fframwaith newydd ar gyfer trosglwyddo cwynion i lefel uwch ac ymyrryd yn y GIG yn y flwyddyn sydd i ddod.